

Gwasanaethau Caffael Cylchlythyr i Gwsmeriaid

Gwanwyn 2019

Gwasanaethau Caffael yn lansio gwefan newydd

Yn y rhifyn hwn

Yn cyflwyno'r tîm hyfforddi
e-Alluogi newydd

Gofal mewn Lleoliad Penodol
a gwella gwydnwch yn y
gymuned

Adnewyddu contract
Lymffodema a Chynhyrchion
Cywasgu Cymru Gyfan

Mae Pob Dim yn Help!
Chwarae ein rhan i leihau
pwysau'r gaeaf...



Diweddariad am
y Gwasanaeth
Negesydd Iechyd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Caffael

Shared Services
Partnership
Procurement Services

Croeso

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael

Mark Roscrow MBE

Croeso i rifyn diweddaraf ein cylchlythyr i gwsmeriaid.

Wrth i ni symud i flwyddyn ariannol newydd, rydym wedi wynebu'r pwysau arferol sydd gan ddiwedd y flwyddyn i'w gynnig, ond gyda'r her ychwanegol o Brexit. Mae hyn wedi dominyddu ein hagenda dros yr ychydig fisoedd diwethaf wrth i ni symud tuag at "Brexit heb gytundeb". Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw'r sefyllfa'n glir o hyd ac felly bu'n rhaid i ni weithio ar y sefyllfa waethaf un. Mae hyn wedi gofyn am waith sylweddol gan ein staff ar draws nifer o feysydd ac maent wedi gwneud gwaith rhyfeddol i'n helpu i gyrraedd y sefyllfa yr ydym ynddi, felly diolch yn fawr i bawb sydd wedi chwarae rhan yn hyn o beth.

Y prif ffocws fu caffael storfa newydd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Prynwyd y storfa i gyfyngu ein hamlygiad i risg mewn perthynas ag eitemau meddygol a chlinigol tafladwy (yr ystod o gynhyrchion rydym fel arfer yn eu cadw), yn ogystal ag i gael cyfle i ddarparu gwasanaethau strategol ychwanegol i GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hyn wedi denu cryn dipyn o sylw yn y wasg yn ystod yr wythnos diwethaf, wrth i ni barhau i sefydlu'r storfa a derbyn nwyddau.

Sefydlwyd Canolfan Alwadau Genedlaethol i gefnogi hyn, a fydd yn gweithredu ledled y DU. Bydd yn cysylltu â chapasiti trafnidiaeth ychwanegol, os bydd angen. Mae hyn yn cynnwys gofod ychwanegol ar groesfannau fferi, yn ogystal â nwyddau awyr, os oes angen. Er mwyn gweithio law yn llaw â hyn, bydd Cymru yn sefydlu ei phroses frysbenno ei hun, ac mae staff wedi helpu i'w sefydlu a'i rhoi ar brawf yng Nghymru ac yn genedlaethol. Mae hyn hefyd wedi golygu cryn dipyn o waith a bydd yn canolbwyntio ar unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag eitemau traul meddygol a chlinigol. Sefydlwyd system ar wahân ond cysylltiedig ar gyfer cynhyrchion fferylliaeth a chynhyrchion gwaed. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chyflenwyr i gynnal asesiad risg o'r trefniadau y maent wedi'u rhoi ar waith i gefnogi Brexit heb gytundeb, a byddant yn parhau i fonitro'r sefyllfaoedd hyn wrth i amser fynd yn ei flaen.

Er bod Brexit wedi dominyddu'r agenda, mae cydweithwyr wedi parhau i wneud y "brif swydd", sy'n cynnwys paratoi cynllun manwl yn rhan o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â rheoli rhuthr cyfalaf diwedd blwyddyn arall. Mae'r newidiadau i'r ffiniau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd wedi bod yn her fawr ac rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr, Helen James ac Esther Price, am ddod â'r newidiadau angenrheidiol i rym. Rwy'n gwybod nad oedd yn hawdd ar adegau.

Gobeithiaf y bydd y cylchlythyr yn rhoi blas i chi ar rywfaint o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ac, fel arfer, rydym yn croesawu unrhyw erthyglau gennych. Felly os ydych yn teimlo bod gennych gyfraniad i'w wneud, cysylltwch â [Leanne Wright](#).



Diolch i chi am ddarllen ein cylchlythyr

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r erthyglau yn y daflen newyddion hon, neu pe hoffech chi gyflwyno erthygl ar gyfer y rhifyn nesaf, cysylltwch ag: alex.curley@wales.nhs.uk



@NWSSP



PARTNERIAETH
CYDWASANAETHAU
GIG CYMRU



PARTNERIAETH
CYDWASANAETHAU
GIG CYMRU

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!

Yn cyflwyno'r tîm hyfforddi e-Alluogi newydd

Mae'r tîm e-Alluogi yn cynnwys:

- Matthew Jones, Arweinydd Datblygu Hyfforddiant
- Tracey Sullivan, Swyddog Hyfforddi
- Diane Perkins, Cynorthwydd Cefnogi Hyfforddiant.

Mae ein prif ffocws ar ddarparu sesiynau ystafell ddsbarth Oracle iProcurement i ddefnyddwyr mewn gwahanol ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ledled Cymru. Mae'r rhain yn cael derbyniad da iawn gan ddefnyddwyr ac rydym bob amser yn mynd ati i wella'r sesiynau hyn i sicrhau bod y staff yn derbyn yr hyfforddiant gorau posibl.

Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau darparu hyfforddiant ar-lein drwy ddefnyddio Skype for Business, ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'n cwsmeriaid am ei fod wedi lleihau'r angen iddynt deithio'n bell i fynychu sesiynau hyfforddi.

Gan ddechrau drwy ddarparu ein sesiynau Oracle iProcurement Approver ar Skype, rydym hefyd wedi cyflwyno ein gweminarau 'Oracle Iproc Refresher'. Testun y gweminar cyntaf oedd derbynebu i gydfeind â diwedd y flwyddyn, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rydym bellach yn anelu at gynnal seminarau ychwanegol yn y misoedd i ddod.

Beth yw Skype for Business?

Mae'n eich galluogi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd / hyfforddiant o gysur eich desg eich hun. Gallwch weld a gwrandao ar y cynnwys sy'n cael ei gyflwyno yn ogystal â rhyngweithio ag unrhyw gwestiynau neu drafodaethau.

Beth sydd ei angen arnaf i mi ei ddefnyddio?

Cyfrifiadur gyda soced ar gyfer seinwyr / clustffonau NEU ffôn a chanddo gysylltiad i'r rhyngwyd. Cyn bo hir, byddwn hefyd yn cyflwyno ein gweminarau iProcurement cyntaf ar Skype. Bydd y sesiynau hyn yn defnyddio'r dechnoleg i ddarparu hyfforddiant 'gloywi' i ddefnyddwyr presennol, ac yn arbenigo mewn rhoi gwersi ar bynciau penodol e.e. derbynebu, esbonio prosesau newydd / cymhleth ar wahanol systemau.



Mae ein canllawiau fideo ar Oracle iProcurement wedi cael eu cyflwyno i lawer o'r sefydliadau iechyd yn ddiweddar ac maent ar gael ar dudalen flaen Shop yn Oracle iProcurement. Bydd sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael yn ôl yr angen yn rhoi cymorth ac arweiniad i wneud yn siŵr bod archebion yn cael eu gwneud yn gywir. Dylai hyn hefyd gael effaith ar ein hystadegau IOH.

Yn ddiweddar, mae'r tîm Hyfforddiant e-Alluogi wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno Actionpoint ar draws yr holl dimau rheng flaen, gyda sesiynau ystafell ddsbarth a datblygiad fideos hyfforddiant ar-lein. Gellir dod o hyd i'r canllawiau ar-lein hyn [yma](#) (Angen dolen at GIG Cymru i wyllo'r fideos).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw un o'r uchod, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm drwy ddesg gymorth Gwasanaethau Caffael:

NWSSP.Procurementservice@wales.nhs.uk

e-Gyfeiriadau ar gael i Bractisiau Deintyddol Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae'r System Reoli e-Atgyfeiriadau Deintyddol newydd, sy'n caniatáu i Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol anfon atgyfeiriadau'n electronig drwy dempledi y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, wedi mynd yn fyw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Bydd clinigwyr yn derbyn atgyfeiriadau electronig yn gynt, gan sicrhau y gellid gweld cleifion ag anghenion brys yn gynt o lawer. Mae'r system hefyd yn caniatáu i radiograffau o ansawdd uchel gael eu hatodi i atgyfeiriadau ac mae'n caniatáu i gleifion a deintyddion sy'n atgyfeirio olrhain eu statws atgyfeirio yn hawdd. Gall Byrddau Iechyd hefyd ddefnyddio'r data a gesglir o atgyfeiriadau electronig i asesu gwasanaethau.

Mae'r system newydd yn cynnwys pob arbenigedd ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd, gan gynnwys:

- Orthodeintyddion
- Llawfeddygaeth y Geg
- Llawfeddygaeth y Genau a'r Wyneb
- Meddygaeth y Geg
- Deintyddiaeth Adferol
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (Gofal Pediatreg a Gofal Arbennig)
- Canser posibl y tybir bod angen sylw brys arno.

Yn dilyn gwerthusiadau cychwynnol, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn bwriadu cyflwyno'r system i fyrddau iechyd eraill yn hwyrach yn y gwanwyn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y wefan:

<https://www.dental-referrals.nhs.wales>

neu drwy [Katharine Fletcher](#).



Gwasanaethau Caffael yn lansio gwefan newydd

Mae'n bleser gennym gyhoeddi lansiad ein gwefan newydd ar ôl sawl mis o waith caled!

Mae gennym ystod mor eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth i'n cleientiaid nad oedd modd i'n hen wefan eu cyfathrebu'n effeithiol. Roedd hyn yn golygu na allai defnyddwyr ddod o hyd i'r wybodaeth roeddent ei heisiau ar bob adeg ac, yn aml, nid oeddent yn ymwybodol o ffyrdd ychwanegol y gallem eu helpu i wneud arbedion sylweddol o ran costau.

Yn dilyn adborth gan gwsmeriaid drwy ein harolygon boddhad, rydym wedi gweithio gydag aelodau o grŵp cyfathrebu gwasanaethau caffael er mwyn datblygu gwefan ar ei newydd wedd fyddai'n ein galluogi i sicrhau profiad gwell.

Yn unol â'n hymrwymiad parhaus at ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, dylai ein gwefan newydd fod yn haws ei defnyddio, a dylai'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch fod yn fwy hygyrch i chi. Rydym wedi treulio amser yn sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, er mwyn gwneud bywydau ein cwsmeriaid yn haws.

Gellir dod o hyd i'r wefan newydd o dan wefan Partneriaeth Cydwasanaeth GIG Cymru drwy glicio ar Wasanaethau Caffael neu'n uniongyrchol ar:

<http://www.nwssp.wales.nhs.uk/gwasanaethau-caffael>


Gall staff GIG Cymru / cwsmeriaid hefyd ddod i hyd i wybodaeth ychwanegol ar ein tudalennau mewnwyd ar: <http://www.sharedservicespartnership.wales.nhs.uk/procurement-services>

Mae'r tudalennau rhyngwyd hefyd ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Porwch drwy'r wefan er mwyn canfod mwy am ein gwasanaethau, ein grwpiau rhanddeiliaid, i gwrdd â'n timau ac i ddarllen am y newyddion diweddaraf gan Wasanaethau Caffael.

Gobeithiwn y byddwch yr un mor hoff o'r wefan newydd ag yr ydym ni!

Os oes gennych unrhyw adborth ar y wefan newydd neu os hoffech weld mwy o wybodaeth arni, rhwch wybod i ni drwy anfon e-bost atom trwy:

Procurementmentservicesenquiries@wales.nhs.uk



Gofal Mewn Man Penodol a gwella gwydnwch yn y gymuned



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn profi'r model Gofal Sylfaenol cenedlaethol drwy ddefnyddio Cyllid Trawsnewidiol yn sgil cyhoeddi "Cymru Iachach" a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae rhaglen yn cael ei chyflwyno i leihau'r ddibyniaeth ar y llwybr gofal sydd heb ei drefnu ac i leihau derbyniadau brys i ofal eilaidd y gellir eu hosgoi, drwy ganiatáu mwy o fynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn y gymuned.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys sefydlu timau cymunedol integredig mewn mannau penodol, gweithio mewn practisau a dilyn dull Tîm Amlddisgyblaethol, gan gynnwys gofal cymdeithasol a lles fel prif bartneriaid. Bydd cysylltiadau strwythuredig â'r Rhwydweithiau Lles Integredig sydd eisoes wedi'u sefydlu ym mhob "lle" ac mae'r rhaglen hefyd yn ceisio creu gwydnwch a thrugaredd yn y cymunedau lleol. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddefnyddio Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau, gan greu cymunedau sy'n annibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn cefnogi a gwella gwydnwch cymunedol, mae Tîm Caffael Rheng Flaen Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, dan arweiniad Rob Type a thrwy weithio law yn llaw â chydweithwyr o Ofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wedi llwyddo i gynnal ymarfer tendro cystadleuol, gyda Compassionate Communities UK yn ennill y contract. Mae rhaglen Compassionate Communities UK yn Frome, Gwlad yr Haf, wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau derbyniadau brys i'r ysbyty o 30% dros y 3 blynedd diwethaf. Mae derbyniadau brys yn gyfrifol am bron i 20% o gyllideb gofal iechyd Lloegr, sy'n £110 biliwn.

Bu Practis Meddygol Frome, sy'n gwasanaethu poblogaeth o 28,000, yn llwyddiannus yn hyn o beth drwy gyfuno rhaglen Compassionate Communities UK o ddatblygiad cymunedol â gofal meddygol arferol. Mae'r dull hwn yn blaenoriaethu perthnasau cymdeithasol fel ffordd allweddol o sicrhau iechyd a lles.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gobeithio y bydd gweithredu'r contract hwn yn llwyddiannus yn arwain at ofal yn nes at adref ac, yn y pen draw, ostyngiadau sylweddol mewn derbyniadau brys yn y gwasanaethau aciwt. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn tynnu ar ei brofiad o Bractis Meddygol Frome i sicrhau llwyddiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cynnal ymarfer llwyddiannus ar gyfer wigiau cleifion


Yn ddiweddar, mae tîm Caffael Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal proses dendro gystadleuol ar gyfer gwasanaeth wig a reolir yn llawn ar gyfer cyflenwi, gosod a thorri wigiau i gleifion sy'n dioddef o golli gwallt naill ai oherwydd triniaethau meddygol fel cemotherapi neu gyflyrau fel alopecia.

Cynhaliodd Gwasanaethau Caffael broses dendro gystadleuol yn dilyn gweithdrefn agored Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Cyflwynodd pedwar cyflenwr ymatebion i Wahoddiad i Dendro.

Sgoriwyd yr ymatebion technegol gan y grŵp prosiect a, gan fod pob cyflenwr wedi bodloni'r meini prawf hanfodol, gwahoddwyd y pedwar cyflenwr i roi cyflwyniad byr 15 munud yn manylu ar y gwasanaeth y gallent ei gynnis, gan drafod holl bwyntiau'r fanyleb er mwyn galluogi'r grŵp prosiect i sgorio'r Amlen Dechnegol.

Gofynnwyd hefyd i gyflenwyr ddarparu samplau o'r wigiau y gallent eu darparu. Adolygodd y grŵp prosiect y dewis o wigiau i sicrhau y gallai cyflenwyr gynnig amrywiaeth o fathau, hyd a lliwiau.

Gan fod pob claf yn cael taleb i brynu wig oddi wrth y cyflenwyr dan gontract, y rheiny a oedd yn gallu cynnis y nifer uchaf o fathau / lliwiau gwahanol o wigiau am werth y daleb a sgoriodd uchaf yn yr amlen fasnachol. Dyfarnwyd y fframwaith di-radd i dri chyflenwr llwyddiannus, sef Hairy Fairy, Morgans Wigs a The Wiggins.



Bydd Hairy Fairy yn cynnal sesiwn gosod wigiau bob dydd Iau yn Ysbyty Maelor Wrecsam neu gall cleifion ddewis ymweld â'r tylwyth teg gwallt yn eu salon yn Lerpwl. Mae Tracy, y perchennog, yn byw gydag Alopecia ei hun a, thrwy ei phrofiad personol o golli gwallt, gall drosglwyddo gwybodaeth werthfawr ar sut i reoli'r profiad o golli'ch gwallt. Mae gan Hair Fairy gynlluniau cyffrous hefyd i adeiladu gardd synhwyraidd yng Ngwanwyn 2019, er mwyn i gleifion gael ymlacio ynddi.

Mae gan Morgans Wigs dri salon yng Ngogledd Cymru y gall cleifion ymweld â hwy – yn Llandudno, Prestatyn a Chaer – ac mae ystafelloedd preifat ar gyfer gosod wigiau ar gael ar bob safle.

Bydd y Wiggins yn cynnal sesiwn gosod wigiau bob dydd Mercher yn Ysbyty Gwynedd a Bangor, neu gall cleifion ymweld â'u salon yn Lerpwl.

Yn ogystal, mae pob cyflenwr yn barod i wneud ymweliadau yn y cartref â chleifion nad ydynt yn gallu mynychu apwyntiad am y tro.

Bydd Gwasanaeth Canser Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth gan Wasanaethau Caffael, yn rheoli'r contract drwy gynnal cyfarfodydd adolygu contractau ddwywaith y flwyddyn, er mwyn monitro adborth cleifion a sicrhau bod cleifion yn cael cynnis digon o ddewisiadau wig yn rheolaidd.

Diweddariad am y Tîm Comisiynu a Chyrchu

Yn ddiweddar, mae'r Tîm Comisiynu a Chyrchu, sydd wedi'i leoli yn Nhŷ'r Cwmniau, Caerdydd, wedi cwblhau dyfarniad contract ar gyfer darparu Diploma mewn Cynllunio.

Cyn dyfarnu'r contract, nid oedd darpariaeth ar gyfer cymhwyster o'r fath ledled y DU. Gweithiodd y tîm yn agos gyda chydweithwyr cynllunio yn Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, i greu a chyflwyno'r cymhwyster ar gyfer GIG Cymru.

Bydd y sefydliad academiaidd llwyddiannus, Prifysgol Caerdydd, yn cysylltu'n uniongyrchol â GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i gwblhau cynnwys cyrsiau a modiwlau, cyn achredu'r cwrs yn fewnol i sicrhau bod y diploma'n bodloni canllawiau a safonau priodol y sefydliad academiaidd.



Dyma'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd i'w cyflawni:

- Datblygiad strategol: sganio'r gorwel, dealltwriaeth wleidyddol a deddfwriaethol
- Casglu a defnyddio data, defnyddio offer cynllunio adnoddau, dadansoddi iechyd, cyd-gynhyrchu
- Adnodd modelu ar draws llwybr cyfan cleifion: galw a gallu, gweithlu
- Datblygu achosion busnes, datblygu manylebau gwasanaeth, metrigau monitro gwerthusiadau, gwireddu buddion
- Cynllunio ariannol.

Bydd y cwrs yn dechrau ym mis Medi 2019 ar gyfer carfan o 25 o fyfyrwyr, sy'n cynnwys lle wedi'i neilltuo ar gyfer aelod o staff Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Erbyn diwedd dyfarniad y contract, bydd 125 o fyfyrwyr wedi ennill eu Diploma mewn Cynllunio.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Gemma Roscrow, Rheolwr Categori
gemma.roscrow@wales.nhs.uk
neu
Jannine Crees, Uwch Reolwr Categori
jannine.crees@wales.nhs.uk

Adnewyddu'r contract Cynhyrchion Lymffoedema a Chywasgu Cymru Gyfan



Profwr pwysedd hosanau HATRA Marc 2

Yn ddiweddar cawsom broses gaffael ar gyfer adnewyddu contract Cynhyrchion Lymffoedema a Chywasgu Cymru Gyfan, a ddyfarnwyd gyntaf yn 2014 ac a redodd am 4 blynedd.

Mae'r contract yn cynnwys ystod o ddillad cywasgu fel dillad sydd wedi'i deilwra'n arbennig neu ddillad oddi ar y silff ar gyfer y breichiau uchaf ac isaf (llewys braich a hosanau) er mwyn trin sawl math o edema, ond mae hefyd yn cynnwys cynhyrchion amrywiol megis gorchuddion, glud, capiau traed a chymhorthion gwisgo.

Gwnaethom weithio'n agos gyda Rhwydwaith Lymffoedema Cymru i sefydlu manylebau ar gyfer y cynhyrchion a chytuno ar strategaeth ar gyfer y contract, sy'n rhoi'r lle blaenaf i ansawdd wrth sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn costau drwy ad-drefnu'r cynhyrchion sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru.

Mae'r contract newydd yn cynnwys gwasanaeth ar ei newydd wedd a wnaed gan Rwydwaith Lymffoedema Cymru er mwyn gwella'r broses y mae cleifion Lymffoedema yn ymgymryd â hi i dderbyn dillad cywasgu. Caiff yr holl ddillad cywasgu eu caffael o dan ofal eilaidd drwy'r contract Cymru Gyfan yn hytrach na'r broses bresgripsiynau bresennol.

Canlyniad hyn yw bod gwariant ychwanegol o oddeutu £1 miliwn y flwyddyn yn cael ei ail-neilltuo o wariant presgripsiwn i wariant contract.

Nod y model newydd yw darparu dillad yn syth (triniaeth ar unwaith), lleihau apwyntiadau meddyg teulu, lleihau'r gwallau presgripsiynau a gwneud arbedion cost. Mae proses y contract yn nodedig am ei bod yn cynnwys profion a gynhaliwyd gan y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol i wirio'r honiadau a wnaed gan wneuthurwyr mewn perthynas â'r proffil cywasgu a ddarperir gan lawer o'r cynhyrchion ar gontract.

Cafodd cynhyrchion dethol, fel y'u diffinnir yn y fanyleb, werthusiad pen desg a phroffion gan yr Uwch Dîm Rheoli.

Mynychwyd y gwerthusiad pen desg gan wasanaethau caffael, clinigwyr a chleifion sy'n dioddef o Lymffoedema, a wisgodd ddillad a oedd wedi'u teilwra ar eu cyfer.

Yn ogystal ag edrych ar y cynhyrchion eu hunain, gwiriwyd rhai pecynnau hefyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Gyfarwydddeb Dyfeisiau Meddygol.

Mewn nifer o lotiau, aeth y cynhyrchion hynny a lwyddodd yn y gwerthusiadau pen desg ymlaen i gael eu profi gan yr Uwch Dîm Rheoli. Profodd yr Uwch Dîm Rheoli broffil cywasgu ystod o ddillad yn unol â safonau Prydeinig, gan ddefnyddio profwr pwysedd hosanau HATRA Marc 2.

Nid aeth y cynhyrchion hynny na thybiwyd eu bod yn cydymffurfio â'r lefelau cywasgu a nodwyd yn y tendr, neu y darganfuwyd eu bod yn rhoi graddiant pwysedd negyddol, ymlaen yn y broses dendro.

Mae'r contract yn sail ar gyfer Cyffurlyfr Cenedlaethol Lymffoedema, a ddatblygwyd gan glinigwyr. Mae'r cynhyrchion ar y cyffurlyfr yn adlewyrchu'r rhai a ddyfarnwyd ar y contract, sy'n sicrhau arfer gorau a safoni gofal ledled Cymru.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r contract newydd a'r cyffurlyfr dilynol, cynhaliodd Rhwydwaith Lymffoedema Cymru ddigwyddiad lle gwahoddwyd cyflenwyr i ddarparu gweithdy i drafod eu cynhyrchion a ddyfarnwyd ar y contract.

Mynychwyd y diwrnod gan nyrsys Lymffoedema, nyrsys hyfywedd meinwe a nyrsys cymunedol o bob cwr o Gymru ac roedd yn gyfle i drafod a gweld y cynhyrchion dan gontract yn bersonol.

Yn ogystal â chefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus a gwella gofal cleifion, mae'r broses gaffael wedi sicrhau arbediad o £123,000 (gan gynnwys TAW) y flwyddyn, yn seiliedig ar y defnydd presennol.

Mae Pob Dim yn Help! Chwarae ein rhan i leihau pwysau'r gaeaf...

Cyhoeddwyd pecyn cyllid ychwanegol gwerth £20 miliwn ym mis Hydref 2018 i helpu i leddfu'r pwysau ar GIG Cymru dros gyfnod y gaeaf. Derbyniodd y Byrddau Iechyd £16m o'r cyllid hwnnw er mwyn darparu gofal yn nes at y cartref, i sicrhau bod digon o gapasiti yn yr ysbytai ac i helpu pobl i fynd adref pan fyddant yn barod i wneud hynny.

Yn ddiweddar, cefnogodd y Tîm Comisiynu a Chyrchu Lywodraeth Cymru wrth sefydlu darpariaeth gofal bugeiliol a gwasanaeth rhyddhau / ailsefydlu â chymorth yn y rhan fwyaf o Adrannau Brys yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i gefnogi gan y Groes Goch Brydeinig. Mae'r gwasanaeth peilot yn fyw ar hyn o bryd a bydd yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2019.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio yn eithriadol o dda a derbyniwyd adborth calonogol iawn gan gleifion a staff rheng flaen y GIG. Hyd yma, mae tua 14,000 o gleifion wedi elwa ar y gwasanaeth. Mae'r cleifion sy'n cael eu cefnogi yn fwy aml na pheidio yn fregus, yn agored i niwed ac yn unig. Mae'r gwasanaeth yn gweithio drwy atgyfeirio yn unol â nifer o feini prawf. Er hyn, mae'r Groes Goch Brydeinig yn ceisio darparu ar gyfer cynifer o unigolion ag y mae'r capasiti presennol yn eu caniatáu. Cynhelir asesiad o'r peilot wedi diwedd Mawrth 2019 er mwyn asesu'r manteision a'r effaith ar leihau'r pwysau yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.



Yn ogystal â'r uchod, mae'r Tîm Comisiynu hefyd wedi ariannu dros 340 o ddyfeisiau codi ar gyfer cartrefi gofal / nyrsio ledled Cymru fel rhan o'r gyllideb ar gyfer pwysau'r gaeaf. Deilliodd y fenter hon o "Adolygiad o Alwadau Oren" diweddar gan y Gwasanaeth Ambiwylans. Un o brif ganfyddiadau'r Adolygiad o Alwadau Oren oedd bod galwadau i wasanaethau ambiwlans yng Nghymru wedi cynyddu o 11.3%.

Canfu'r Adolygiad o Alwadau Oren hefyd bod nifer helaeth o'r galwadau y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn eu derbyn yn dod o gartrefi gofal, i asesu unigolion sydd wedi cwmpo.



Cydnabu Adolygiad o Alwadau Oren fod Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi darparu offer codi a hyfforddiant i nifer fach o gartrefi nyrsio yng Nghymru, a dywedodd yr adolygiad y "dylid archwilio'r opsiwn o ehangu'r gwaith hwn".

Gan adeiladu ar y gwaith cychwynnol gan Wasanaeth Ambiwylans Cymru, trefnwyd bod cyllid ar gael i gaffael y dyfeisiau codi hyn ar gyfer carfan o gartrefi gofal / nyrsio (Cam 1) gan gynnwys hyfforddiant gyda chefnogaeth teclyn Asesu Cwmpadau. Mae tystiolaeth eisoes yn bodoli sy'n awgrymu bod llai o angen ar ambiwlansys i symud cleifion sydd wedi syrthio mewn cartrefi gofal i adrannau damweiniau ac achosion brys lle mae'r dyfeisiau codi hyn ar gael. Cynhelir asesiad gwireddu manteision wedi mis Mawrth 2019, er mwyn asesu'r effaith. Mae trydydd prosiect wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, sef gwasanaeth "Healthy at Home Winter Initiative". Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei dreialu mewn nifer o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac mae'n cynnig gwasanaeth diogelwch cartref i gleifion bregus / oedrannus sydd â chyflyrau cyd-forbid fel dementia. Mae'n yn cynnig asesiad ataliol ar gartref y claf, gan sicrhau ei fod yn ddiogel, yn gynnes ac yn gydnaws â gwell iechyd a lles.

Gwybodaeth bellach: Nic Cowley, Pennaeth Tîm Cyrchu a Chomisiynu: nic.cowley@wales.nhs.uk

Diweddariad y Tîm Fferylliaeth, Offer, Gorchuddion a Meddyginiaethau Aciwt – Adalimumab

Yn ddiweddar, daeth y Tîm Fferylliaeth, Offer, Gorchuddion a Meddyginiaethau Aciwt â'r contract ar gyfer cyflenwi Adalimumab i ben, ar ôl i ddetholrwydd y cyffur Humira gael ei golli (a gyflenwyd gan Abbvie Ltd) ar 16 Hydref 2018.

Mae Adalimumab yn atalydd gwrthlidiol ac alffa-ffactor necrosis tiwmor (TNF α) ac mae wedi ei gymeradwyo i drin sawl cyflwr meddygol gan gynnwys arthritis gwynegol cymedrol a difrifol, arthritis soriatig gweithredol a gwaethybol, spondylitis ymasiol gweithredol difrifol, clefyd Crohn, a llid briwiol y coluddyn. Roedd tua 60,000 o gleifion yn y DU yn derbyn Humira gyda charfan fawr o gleifion yn derbyn y feddyginiaeth drwy wasanaeth gofal cartref. O ran refeniw, Humira oedd y feddyginiaeth oedd yn gwerthu orau yn rhyngwladol, a rhagwelwyd arbedion sylweddol ar ôl colli detholrwydd a chyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad.

Yn ystod 2018, bu'r tîm Meddyginiaethau Aciwt yn monitro'r farchnad ar gyfer argaeledd meddyginiaethau biodebyg, ac yn ymgysylltu â chydweithwyr yn Lloegr a'r Alban ynghylch dulliau tendro posibl a'r effaith ar ofal cartref. O ganlyniad i'r posibilrwydd o gystadleuaeth yn y farchnad yn sgil cyflwyno cyffuriau biodebyg, lleihaodd Abbvie Ltd bris Humira ar 1 Tachwedd 2018, gan sicrhau arbediad blynyddol o £5,913,944 y flwyddyn yn erbyn gwariant Cymru gyfan o £10,752,625.

Yn unol â'r gwledydd cartref eraill, cyhoeddwyd tendr Cymru gyfan ym mis Hydref 2018 er mwyn i'r contract ddechrau ar 1 Rhagfyr 2018. Gan weithio gyda Phwyllgor Contractio Cyffuriau Cymru Gyfan (AWDCC), dyfarnodd y Tîm Meddyginiaethau Aciwt fframwaith aml-gyflenwr ar gyfer Adalimumab (y cychwynnydd a 4 meddyginiaeth fiodebyg), gan arwain at gyfle i wneud arbedion ychwanegol o £2,688,156 y flwyddyn pan fydd Byrddau Iechyd yn rhoi cleifion ar y meddyginiaethau biodebyg.

Mae'r Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan yn cynnig mynediad i gleifion yng Nghymru at amryfal weddau ar Adalimumab, gan gynnwys pennau wedi'u llenwi ymlaen llaw, chwistrellau wedi'u llenwi ymlaen llaw a meddyginiaethau sy'n cynnwys sitrad a meddyginiaethau nad ydynt yn cynnwys sitrad. Mae'r Cytundeb hefyd yn cwmpasu nifer o ddarparwyr gofal cartref, gan alluogi Byrddau Iechyd i ddarparu'r gofal cartref gorau posibl i gleifion yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd y tîm Meddyginiaethau Aciwt yn monitro'r broses o newid cleifion i'r meddyginiaethau biodebyg newydd, a bydd gweithgarwch meincnodi yn parhau ledled y gwledydd cartref.



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

[Jennifer Tresilian](#), Rheolwr Categori, Meddyginiaethau Gofal Cartref
Ffôn: 02920 903873

Diweddariad Tîm Cyrchu Clinigol Cymru Gyfan

Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn gwerthuso'r ymatebion tendro ar gyfer All Wales Ophthalmology Surgery & Orthoptic Consumables Framework Agreement (CLI-OUEU-39132) & All Wales Point of Care Testing Anti-Coagulation Monitoring (CLI-OJEU-40,138).

Mae nifer o feysydd contract newydd sydd bellach yn dendrau byw i'r farchnad gyflenwi ymateb iddynt:

- All Wales Sterilisation & Decontamination Consumables Framework Agreement (CLI-OJEU-40703)
- All Wales Pathology Consumables Framework Agreement (CLI-OJEU- 40707).

Mae adnewyddiad AW Standard & Custom Procedure Packs (CLI-OJEU-39030) newydd gael ei gyhoeddi hefyd.



Diweddariad y Tîm Cyrchu Meddygol

Therapi Anadlol ac Ategolion

Yn ddiweddar, disodlwyd y contract ar gyfer nwyddau traul pwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu (CPAP) gan y contract Therapi Anadlol ac Ategolion. Yn ogystal â dyfeisiau, lleithyddion, masgiau a thiwbiau pwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu, mae'r contract Cymru gyfan bellach yn cynnwys hetiau babanod, masgiau babanod, penwisg babanod, falfiau PEEP, darnau sbâr ar gyfer pob math o fasgiau ac ategolion cysylltiedig eraill.

Er mwyn sicrhau bod y cyflenwyr sydd wedi'u dewis yn bodloni'r safonau disgwylidig, sefydlwyd gweithgor o glinigwyr o'r byrddau iechyd amrywiol er mwyn datblygu manyleb. Gwahoddwyd clinigwyr hefyd i gymryd rhan mewn diwrnod asesu pen desg er mwyn gwerthuso cyflwyniadau'r cyflenwyr yn erbyn y fanyleb.

Fel rhan o werthuso'r dyfeisiau pwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu, cwblhawyd profion ychwanegol gan yr Adran Beirianneg Electro-Fiofeddygol i fesur pwysedd a chywirdeb llif y dyfeisiau, er mwyn sicrhau eu bod o fewn paramedrau diffiniedig.

Am fanylion pellach am y contract hwn, cysylltwch â:

NWSSPPProcurement.MedicalTeam@wales.nhs.uk



Gwsg Theatr

Yn ddiweddar, cwblhaodd Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ddyfarniad y contract ar gyfer Gwsg Theatr, gan sicrhau arbedion blynyddol o £172,034.51 (20%) ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru. Mae'r contract yn cynnwys gynau cleifion, dillad isaf tafladwy, gynau llawfeddygol, masgiau wyneb llawfeddygol, capiau a chycyllau llawfeddygol, ffedogau llawfeddygol a sbectolau amddiffynnol.

Er y gwnaed arbedion sylweddol, sicrhawyd ansawdd drwy werthusiad cadarn gan ddefnyddwyr. Cafodd hyn ei gefnogi gan brofion gan y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol i ddangos cydymffurfiaeth â BE EN 13795.

Mae'r profion a gwblhawyd yn dangos bod yr eitemau a gafodd eu dewis yn darparu'r lefelau o amddiffyniad a nodir yn y safon ar gyfer y meysydd isod:

- Gwrthsefyll Treiddiad Hylifol
- Gwrthsefyll Treiddiad Microbaidd Sych
- Glendid – Gwlaniach a Deunydd Gronynnol
- Cryfder Tynnol.

Am fanylion pellach am y contract hwn, anfonwch e-bost at

NWSSPPProcurement.MedicalTeam@wales.nhs.uk

Diweddariad am y Tîm Cyrchu Meddygol (parhad)

Mae'r Tîm Cyrchu Meddygol bellach yn defnyddio Action Point



Gellir anfon unrhyw ymholiadau, cwynion, materion contract a chanmoliaethau sy'n ymwneud â meysydd categori meddygol at NWSSPPurchase.MedicalTeam@wales.nhs.uk, lle bydd datrysiadau'n cael eu rheoli drwy Action Point.

Dyrennir lefel flaenoriaeth i bob galwad yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater a bydd aelod o'r tîm yn ymateb o fewn yr amserlen benodedig.

Mae'r meysydd categori a reolir gan y Tîm Meddygol yn cynnwys:

Anaestheteg a Therapi Mewnwythiennol	
Rheoli'r Llwybr Anadlu	Therapi Anadlol ac Ategolion
Hidlau a Masgiau Anadlu	Ocsigen Arbenigol
Systemau a Nwyddau Traul Anadlu (Cylchedau)	Chwistrellau a Nodwyddau Arbenigol
Gorchuddion Mewnwythiennol	Chwistrelli a Nodwyddau
Nwyddau Traul Laryngectomi a Thraceostomi	Ategolion Mynediad Fasgwlaidd
Llafnau Laryngosgop	Dyfeisiau Mynediad Fasgwlaidd (Diogelwch)
Dyfeisiau Niwcro-acsonol	Dyfeisiau Mynediad Fasgwlaidd (Safonol)
Offer Ocsigen	Therapi Awyru ac Ategolion
Therapi Ocsigen	-
Meddygaeth Gyffredinol a Diagnosteg	
Electrodau ECG a Phadiau Diffibrilio	Siartiau Meddygol a Phapurau Monitro
Asesiadau Clust, Trwyn a Gwddf Cleifion	Bandiau Arddwrn Adnabod Cleifion
Nwyddau Traul Bwydo Enterig	Monitro Cleifion
Systemau Rheoli Ysgarthion	Thermometreg
Nwyddau Traul Meddygol Cyffredinol ac Asesu	Mesuryddion Wrin
Wroleg	-
Nwyddau Traul Theatr	
Draenio'r Frest a Chlwyfau	Cathetrau Sugno a Thiwbiau
Teclynnau Electrolawfeddygol	Menig Llawfeddygon
Menig Archwilio	Teclynnau Llawfeddygol
Cynhyrchion Haemostatig	Cynhyrchion Tafladwy a ddefnyddir yn y Theatr
Nwyddau Traul Laparosgopig	Gorchuddion Theatr
Rheoli Tymheredd Cleifion	Esgidiau Theatr
Cau'r Croen a Chlwyfau	Gwisg Theatr



Diweddariad am y Gwasanaeth

Arloesi

Mae'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd wedi cyflwyno nifer o welliannau yn ddiweddar i'r ffordd mae'n casglu gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Rydym wedi gweithio ar y cyd â Vodafone UK i ddatblygu Cynorthwydd Digidol Personol pwrpasol y gall staff ei ddefnyddio. Mae hyn wedi ein galluogi i reoli offer digidol a data mewn modd diogel.

Rheolir ein Cynorthwydd Digidol Personol gan system Rheoli Dyfeisiau Symudol, sy'n caniatáu i ni benderfynu pa apiau y gellir eu gosod a pha wefannau y gellir eu rhwystro. Yn bwysicach fyth, mae wedi cynnig cyfleoedd i rannu dogfennau fel deunyddiau hyfforddi, bwletinâu a chyhoeddiadau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â rôl benodol drwy gwpwrdd clo sydd wedi'i amgryptio.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda Cleric Software Solutions i ddatblygu a gwella eu cymhwysiad ffôn symudol 'APTS' yn unol â'n gofynion.



Mae'r cymhwysiad yn casglu gwybodaeth, fel cadarnhau bod gwiriadau dyddiol ar gerbydau yn digwydd, a chodau statws, h.y. data symudol, a data codi a gollwng. Rydym hefyd yn gallu cofnodi llofnodion electronig ar gyfer dosbarthu eitemau o werth uchel, tynnu lluniau o becynnau annigol a'u huwchlwytho i'r cyfeirnod taith penodol ac ati.

Gall defnyddwyr hefyd ychwanegu 'llwythi newydd' ar y system drwy'r cymhwysiad. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gofnodi eitemau 'ad-hoc' wrth iddynt gael eu cludo, yn hytrach na'u cofnodi yn ôl-weithredol.

Mae cyfnod o ddwy awr wedi'i osod ar gyfer casglu a dosbarthu sbesimenau patholeg rhwng meddygfeydd, clinigau ac ysbytai yng Nghymru. Mae gwerthusiad data diweddar, sy'n dod o'r wybodaeth a gynhyrchwyd gan Weithredwyr y Gwasanaeth Negesydd Iechyd drwy eu rhyngweithiadau â'r Cynorthwydd Digidol Personol, wedi nodi bod hyn yn cael ei gyflawni tua 89.4% o'r amser.



Wrth i ni symud ymlaen at symleiddio'r broses hon a chyflwyno mwy o wasanaethau yng Nghymru, bydd defnyddio'r dechnoleg hon yn hollbwysig wrth benderfynu sut y byddwn yn datblygu ein gwasanaeth mewn ardaloedd lle nad oes gennym ôl traed ar hyn o bryd.

Diweddariad am y Gwasanaeth Negesydd Iechyd (parhad)

Hwb Cyfathrebu yn Westpoint

Cyflwynwyd gwelliannau hefyd yn Hwb Cyfathrebu'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn Westpoint. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau, yn dilyn cytundeb sy'n nodi y bydd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn hwyluso gwasanaeth 'archebu' ar gyfer clefion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, er mwyn darparu a chasglu deunyddiau gwastraff meddygol.

Estynnwyd hyn ymhellach yn dilyn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y mae GIG Cymru a'n partneriaid yn eu darparu drwy gyfryngau cymdeithasol, taflenni gwybodaeth a fideo sy'n hyrwyddo'r gwasanaeth. O ganlyniad, rydym yn rheoli mwy o alwadau.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn rheoli galwadau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Wrecsam ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Fel rhan o hyn, mae'n hanfodol bwysig rhagori ar ddisgwyliadau gwasanaeth cwsmeriaid.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gyson a'n bod yn dilyn safon ddiffiniedig, rydym wedi cyhoeddi hyfforddiant a gwybodaeth i'r staff yn Westpoint ar sut i ddelio â galwadau'n effeithiol.



**NHS Wales Shared Services Partnership
Health Courier Service (HCS)**

Westpoint Communication Hub Operating Procedures

By: Gildas Griffiths (MCMI, Tech IOSH) & Tracey Chatfield

Dated: 07 February 2019 Version: 1.0

HCS Communications Hub Procedures

The procedures outlined in this booklet are designed to:


- ✓ Explain basic principles & the procedures you need to follow
- ✓ Outline our expectations in dealing with service users
- ✓ Inform you of our hours of work
- ✓ Provide instruction of how to manage 'Blue Light' calls
- ✓ Outline how to manage taxi journeys
- ✓ Explain to how to manage 24/7, Clinical Waste & per-planned work etc.
- ✓ Outline basic principles of Radioactive & Blood products
- ✓ Guidance on how to manage unforeseen circumstances

Any information provided in this document is designed to be used in conjunction with your induction & Cleric Training. Please do not hesitate to contact your Line Manager if you need any further instruction, guidance or training.

Our Vision and Mission

Our Vision To be recognised as a world class shared service through the excellence of our people, services and processes

Our Mission To enable the delivery of world class Public Services in Wales through customer-focus, collaboration and innovation




2 NWSSP HCS CONTROL USER HANDBOOK

